CARDIFF CAPITAL REGION CITY DEAL JOINT SCRUTINY COMMITTEE - THURSDAY, 28 MARCH 2019

COFNODION CYFARFOD O GYD-BWYLLGOR CRAFFU BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGORA 2/3, Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD IAU, 28 MAWRTH 2019 AM 14:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd P Edwards – Cadeirydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Y Cynghorydd JP Blundell – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd J Ridgewell – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Y Cynghorydd A Davies – Cyngor Sir Fynwy
Y Cynghorydd M Rahman – Cyngor Dinas Casnewydd
Y Cynghorydd G Thomas – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd K Preston – Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
Y Cynghorydd V Bailey – Cyngor Bro Morgannwg

Drwy wahoddiad:

| | |
|---|---|
| Kellie Beirne | Cyfarwyddwr Rhaglen CCRCD |
| Peter Davies | Swyddog Gweithredol Prosiect CSC – Cyngor Sir Fynwy |
| Cyngh Andrew Morgan | Cadeirydd Cyd-gabinet CCRCD |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Sarah Daniel | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu |
| Rachel Keepins | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu |

13. DATGANIADAU BUDDIANT

Dim

14. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion CCRCD JOSC ar 5 Chwefror 2019 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

15. Y GRONFA FUDDSODDI EHANGACH – CYNLLUN BUSNES BLYNYDDOL 2019/20

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen CCRCD adroddiad i'r Cyd-bwyllgor ynghylch rhoi'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach ar waith yn effeithiol. Esboniodd i'r aelodau fod y Gronfa'n gyfanswm o £495m a'i bod yn cynnwys grant gan Drysorlys Ei Mawrhydi o £375m dros 20 mlynedd a chyfraniadau o £120m gan y cynghorau. Dywedodd wrth yr aelodau fod Mynegai Cystadleurwydd y Deyrnas Unedig wedi'i nodi yn gynharach yn yr wythnos a'i fod yn dangos bod Caerffili allan o'r 10 isaf, ond bod Merthyr Tudful a Blaenau Gwent yn dal yno ac nad oedd hynny wedi newid ers 25 mlynedd. Roedd gan y Fargen Ddinesig dri tharged o bwys i'w taro – cynnydd o 5% mewn GVA, 25,000 o swyddi newydd â sgiliau uchel a throsoli £4bn o fuddsoddiadau preifat ychwanegol.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Rhaglen fod yr adroddiad yn cynnwys 40 o weithgareddau yn unol â darpariaethau'r JWA ynglŷn â chyflawni Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a allai gael eu cyflawni.

Gofynnodd un o'r aelodau sut y gallai effeithiau'r CCRCD gael eu mesur o'u cymharu â phrosiectau eraill a oedd yn yr arfaeth.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Rhaglen na allen nhw wahaniaethu rhwng targedau, ond eu bod yn gallu edrych ar ymyriadau a gwneud asesiadau o effeithiau economaidd ac asesiadau cystadleurwydd, fel eu bod yn gallu mesur yr effaith ar GVA. Dywedodd Cyfarwyddwr y Rhaglen fod symiau trosoli yn haws i'w cyfrifo a'u cyfeirio'n ôl at y Fargen.

Gofynnodd un o'r aelodau beth roedd y CCRCD yn mynd i'w wneud yn wahanol i offerynnau blaenorol er mwyn gwella'r effaith. Dywedodd Cyfarwyddwr y Rhaglen fod y Cynlluniau Busnes yn nodi'r hyn roedden nhw'n ei wneud yn wahanol a bod hynny'ch cynnwys cystadlu am gyllid newydd i ddatgloi adfywio ehangach. Ychwanegodd y byddai gosod seilwaith digidol hefyd yn codi manteision y Fargen i'r eithaf.

Dywedodd un o'r aelodau nad oedd y cynlluniau'n cynnwys marcwyr, targedau na ffigurau a gofynnodd sut y gallen ni farcio'n hunain

Dywedodd Cyfarwyddwr y Rhaglen y byddai'r Llywodraeth Genedlaethol yn ein marcio ar y fframwaith buddsoddi ac ymyrryd a bod yna feini prawf a thargedau penodol yr oedd angen eu cyrraedd. Dywedodd y câi'r Fframwaith a'r effeithiau eu nodi i'r Cyd-gabinet ar 10 Mehefin 2019. Ychwanegodd y câi ffigurau a thargedau penodol eu cynnwys yn y cynlluniau busnes unigol pan fyddai'r prosiectau unigol wedi'u cymeradwyo gan y Cyd-gabinet.

Ychwanegodd Cadeirydd y Cyd-gabinet fod y model ar gyfer y Fargen yn wahanol yn yr ystyr nad oedd rhestr osod o brosiectau ond bod y cronfeydd yn agored er mwyn i bobl ddod atyn nhw gyda chynigion.

Gofynnodd un o'r aelodau beth oedd y risgiau allweddol o ran adnoddau mewnol a beth oedd yn angenrheidiol er mwyn i'r Fargen lwyddo.

Dywedodd Cadeirydd Cyd-gabinet y Fargen fod adnoddau ychwanegol wedi'u cymeradwyo gan y Cyd-gabinet a bod swyddi wedi dechrau cael eu hysbysebu eisoes.

Gofynnodd un o'r aelodau sut y câi'r lefel uchel o allgáu cymdeithasol ei rheoli. Esboniodd Cyfarwyddwr y Rhaglen fod y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wrthi'n ystyried hyn drwy fuddsoddi mewn cynlluniau prentisiaethau diwydiannol wedi'u targedu. Er bod yna fwlch ar hyn o bryd, ychwanegodd ei bod yn gadarnhaol y gallai'r bwlch gael ei gau drwy broses recriwtio wedi'i rheoli'n ofalus.

Cyfeiriodd un o'r aelodau at greu paneli arbenigol i ddylanwadu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig – yn benodol UKRI ac Innovate UK a sut byddai aelodaeth y paneli hyn yn edrych. Dywedodd Cyfarwyddwr y Rhaglen y byddai'r aelodaeth yn amrywiol o ran Arweinwyr, arbenigwyr o'r sector preifat ac arbenigwyr addysg, a'r gobaith oedd y byddai ganddyn nhw fwy o ddylanwad tuag at gyrff cyllido.

Holodd un o'r aelodau am leoliad swyddfa newydd i'r Fargen. Esboniodd Cyfarwyddwr y Rhaglen y câi ei lleoli yn Nhredomen yng Nghaerffili a'u bod wrthi hefyd yn edrych ar y cyfle i gydleoli yn adeilad y Ffowndri yng Nghasnewydd er mwyn rhannu presenoldeb a buddion y Fargen.

Cyfeiriodd un o'r aelodau at y prosiect buddsoddi mewn arloesi, gan ofyn am ragor o wybodaeth amdano.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Rhaglen eu bod yn ceisio creu clwstwr yn y Ffowndri ac yn datblygu cynllun prentisiaethau ynglŷn â pheirianneg lled-ddargludyddion cyfansawdd.

16. BLAENRAGLEN WAITH, HYFFORDDIANT A RHESTR CYFARFODYDD

Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad i'r Aelodau.

Argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu gynnal cyfarfodydd ymlaen llaw cyn i'r swyddogion ddod i mewn i drafod.

Gofynnodd yr aelodau am gynnwys crynodeb gweithredol ym mhob adroddiad i'r JOSC yn y dyfodol.

Gofynnodd yr aelodau hefyd i'r Pwyllgor ailedrych ar ei Gylch Gorchwyl yn ei gyfarfod nesaf.

Gofynnodd yr aelodau am i'r eitemau a ganlyn gael eu hystyried yn y Flaenraglen Waith:

- Datblygu gweithlu medrus
- Adroddiadau perfformiad ochr yn ochr â chynlluniau busnes
- Y Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd
- Strwythur a Llywodraeth y Fargen Ddinesig

17. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Mynd ati o dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth ar yr eitemau busnes a ganlyn am eu bod yn cynnwys gwybodaeth a ddiffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4, a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

Ar ôl defnyddio prawf buddiant y cyhoedd, penderfynwyd ystyried y materion a ganlyn yn breifat, yn unol â'r Ddeddf uchod, gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, gan y barnwyd o dan yr holl amgylchiadau ynglŷn â'r eitem fod y budd cyhoeddus mewn cadw'r esemptiad yn drech na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth.

18. PROSIECT CSC: DIOGELU CYLLID Y FARGEN DDINESIG

Daeth y cyfarfod i ben am 16.20